# Y Coronafeirws: Pa effaith y mae'n ei chael ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru?

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Mae’r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn cynnal ymchwiliad i effaith Covid-19 yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor am ddeall yr **heriau sy’n wynebu gweithwyr rheng flaen, yn ogystal â’r rheini y mae’r coronafeirws wedi effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol arnynt yng nghyd-destun eu hanghenion iechyd neu ofal.** Bydd hyn yn caniatáu i’r Pwyllgor godi'r materion mwyaf cyffredin neu ddybryd gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill.

Er mwyn deall effaith y coronafeirws yn well, mae’r Pwyllgor yn awyddus i glywed gennych:

- **os ydych yn gweithio mewn lleoliad gofal iechyd neu ofal cymdeithasol (lleoliad clinigol neu yn y gymuned)**
- **os ydych wedi cael triniaeth ar gyfer y coronafeirws**
- **os yw’r coronafeirws wedi effeithio ar eich anghenion gofal**
- **os yw’r coronafeirws wedi effeithio ar eich cyfrifoldebau gofalu**
- **os yw’r coronafeirws wedi effeithio ar eich gofal iechyd neu wedi arwain at oedi yn y cyd-destun hwn**

***Bydd yr arolwg ar agor tan ganol 7 Medi.***

Dylech sicrhau eich bod wedi darllen ein polisi preifatrwydd cyn cyflwyno eich sylwadau.

Er y bydd yr holl safbwyntiau a gyflwynir yn ein helpu i graffu ar Covid-19 a'i effaith, ni all y Pwyllgor roi cyngor ynghylch achosion unigol, na mynd i’r afael â hwy. Fodd bynnag, gallwch gael cymorth gan eich eich Aelodau lleol a rhanbarthol o'r Senedd, a gallwch ddod o hyd i'w manylion ar ein gwefan.

Yn ystod y cyfnod anodd hwn, bydd gan bobl nifer fawr o gwestiynau am y coronafeirws yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, hawliau cyflogaeth, budd-daliadau, cymorth busnes, teithio, bwyd, manwerthu, canslo trefniadau, addysg a llawer mwy. Mae blog a gyhoeddwyd gan Ymchwil y Senedd yn eich cyfeirio at y wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf a ddarperir gan ffynonellau swyddogol sydd ag enw da.

Bydd adroddiad cryno o’n canfyddiadau’n cael ei rannu â’r Aelodau a’u staff, ei gyhoeddi ar ein gwefan, ei hyrwyddo ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, ac yn ymddangos mewn adroddiadau perthnasol. Gall hyn gynnwys dyfyniadau uniongyrchol o ymatebion, ond ni fyddwn yn datgelu pwy ydych chi. Cynhelir yr arolwg hwn gan Survey Monkey. I gael manylion am sut y bydd yn defnyddio eich gwybodaeth, gweler yr adran ymatebwyr o’i bolisi preifatrwydd. I gael y manylion llawn am sut y bydd Comisiwn y Senedd yn defnyddio eich gwybodaeth, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan. Os oes gennych ragor o gwestiynau am sut y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, anfonwch e-bost i Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru, neu ffoniwch **0300 200 6494.**

1. Pa effaith y mae'r coronafeirws yn ei chael arnoch chi neu eich maes gwaith? Rhannwch eich profiadau isod.

2. Beth all Llywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus eraill ei wneud i liniaru effaith y coronafeirws arnoch chi neu eich maes gwaith?

3. Ym mha rinwedd yr ydych yn ateb y cwestiynau hyn?

- ☐ Rhywun sydd wedi derbyn gofal neu driniaeth ar gyfer y coronafeirws (neu aelod o deulu rhywun yn y categori hwn)
- ☐ Rhywun y mae ei ofal neu driniaeth iechyd wedi bod yn destun oedi neu effeithiau eraill yn sgil y coronafeirws
- ☐ Gweithiwr iechyd proffesiynol sy’n gweithio mewn ysbyty
- ☐ Gweithiwr iechyd proffesiynol sy’n gweithio mewn lleoliad gofal sylfaenol neu gymunedol
- ☐ Gweithiwr gofal cartref a gyflogir gan awdurdod lleol
- ☐ Gweithiwr gofal cartref a gyflogir gan gwmni preifat
- ☐ Gweithiwr cartref gofal a gyflogir gan awdurdod lleol
- ☐ Gweithiwr cartref gofal a gyflogir gan gwmni preifat
- ☐ Gofalwr di-dâl/Oedolyn sy'n darparu gofal ar gyfer ffrind agos neu aelod o'r teulu
- ☐ Gofalwr ifanc
- ☐ Arall

4. A fyddai gennych ddiddordeb mewn cyflwyno clip fideo i'r Pwyllgor ohonoch chi yn trafod eich profiadau

- ○ Na fyddai
- ○ Byddai - gadewch eich cyfeiriad e-bost fel y gallwn gysylltu â chi gyda rhagor o wybodaeth

5. Beth yw teitl eich swydd?

6. Yn ardal pa awdurdod lleol yr ydych chi'n byw?

7. Os hoffech gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr ymchwiliad hwn, nodwch eich cyfeiriad e-bost yn y blwch isod.

**Diolch!**

Hoffai'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ddiolch i chi am gymryd rhan yn ei arolwg. Bydd yr arolwg ar agor tan ganol 7 Medi. Fodd bynnag, cyn doriad yr Hâf rhoddwyd **adroddiad interim** i'r Pwyllgor, sy'n tynnu sylw at y materion allweddol a ganfuwyd yn yr arolwg hyd yma. Gallwch hefyd darllen adroddiad y Pwyllgor **'Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 1'.** Dyma'r adroddiad cyntaf o'r gyfres yn trafod y mater hwn. Bydd y Pwyllgor yn parhau â'i waith yn y maes hwn dros y misoedd nesaf a fydd adroddiadau yn y dyfodol yn ystyried materion gan gynnwys llacio'r cyfyngiadau; y strategaeth ymadael; dychwelyd i 'wasanaethau arferol' yn y GIG a'r sector gofal; y galw yn y dyfodol am adsefydlu; gwasanaethau iechyd meddwl; effeithiau ar ofalwyr di-dâl; a data a'r defnydd o dechnoleg.